

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion at Ifan Jones (Saron) sydd wedi cael anffawd, a pharhawn i gofio hefyd am Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno. Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Cofiw'n hefyd am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal yr Arglwydd.
- Llongyfarchiadau i Bob Edwards (Groes) a Gwilym Davies (Tanyfron) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig!

* Casgliad Sasiwn Genhadol y Chwiorydd *

Mae llawer o'r chwiorydd yn gweithio'n ddiwyd iawn yn eu heglwysi, yn yr Ofalaeth ac yn yr Henaduriaeth, a phob blwyddyn, fe wneir casgliad arbennig sy'n gwneud hi'n bosibl i Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyfrannu'n hael at waith Gweithwyr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth a Phrosiectau gartref a thramor. Mae'n dda cael adrodd bod chwiorydd Eglwys Bro Aled wedi cyfrannu £551.00 tuag at y casgliad arbennig hwn eleni. Diolch i chi am eich haelioni.

I ddod

- **LLANW** – Gŵyl Gristnogol i ddathlu'r atgyfodiad ar gyfer y teulu cyfan yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Ebeneser, Dolgellau LL40 1LN dydd Mercher, Ebrill 30ain. Yng nghyfarfod y prynhawn am 2.00, bydd Anna Jane Evans (Cymorth Cristnogol) yn annerch, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 5.30, ceir anerchiad gan Beryl Vaughan, Llanerfyl. Mae gan ysgrifennydd eich eglwys (neu Mair) fwy o gyfarwyddiadau ynglŷn â pharcio a chyfleusterau bwyd ond fe ddarperir paned o de yn Festri Capel Ebeneser wedi oedfa'r prynhawn. Croeso cynnes i bawb.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos dydd Gwener, Mai 9fed. Pwyllgor Gwaith am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a **Chyfarfod Cyhoeddus am 6.30 i Wobrwyo Plant ac Oedolion yr Ysgol Sul.**
- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 13eg am 10.00. Y siaradwr fydd y Parch. Ddr. Noel Davies, Abertawe. Croeso i bawb.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Ebrill 2014

Darlleniad y Dydd

Salm 122

(BCND tud.565 / BCN: tud.516)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Sul y Palmwydd! Croeso cynnes i chi i oedfaon y dydd ac i'r cyfnod arbennig yma o gofio digwyddiadau'r wythnos fawr – y dyddiau yn hanes Iesu cyn y croeshoeliad a'r atgyfodiad. Mae'r hanes wedi ei gofnodi'n fanwl gan y llygad dystion ac oherwydd hynny rydym yn gallu cael golwg fanwl ar y dyddiau a'r oriau pwysicaf mewn hanes i ni fel Cristnogion.

Mae'r wythnos yn cychwyn hefo'r hanes am Iesu yn marchogaeth i mewn i Jerwsalem – y ddinas yn ferw o ymwelwyr a'r ddinas yn cynhyrfu drwyddi wrth i'r gair fynd ar led fod Iesu'n dod! Cofiw'n am y plant yn taenellu'r palmwydd, yn gweiddi croeso ac eraill yn taenu eu dillad o flaen yr ebol asyn fel carped. Gwyddom hefyd mai cri wahanol iawn oedd i'w chlywed gan y dorf ymhen ychydig ddyddiau. Nid gorfoledd croeso ond crochlefaen gwrthodiad. Galw am waed Iesu oeddent ymhen ychydig ddyddiau, am ei groeshoeliad, am ei farwolaeth.

Ydi'n bosibl ein bod ni yr un mor gyfnewidiol? O fod yn yr un sefyllfa, a fyddem wedi gwneud yr un fath â'r disgyblion? Rhedeg i ffwrdd, cuddio rhag yr awdurdodau, gwadu, ofni am ein bywydau ein hunain? Ond, os cawsom brofiad felly o uniaethu hefo'r disgyblion, tybed a gawsom hefyd yr un profiad ag a gafodd Pedr a'r disgyblion eraill yn yr oruwchystafell ar ôl yr atgyfodiad pan ddaeth Iesu yn ôl atynt a'u derbyn eilwaith! Mae'n siŵr fod y cyfarfod yna wedi bod yn rhyfeddol. Dychmygwch y disgyblion yn cuddio dan deimlad o ofn ac o euogrwydd llethol am siomi'r Arglwydd a'i adael i ddiodeff a marw, ac eto, dyma fo, wedi dod yn ôl i lefaru tangnefedd iddynt a'u grymuso trwy ei Ysbryd i fynd i'r holl fyd yn ei Enw!

Galw pobl sy'n teimlo'n anheilwng ac sydd yn analluog yn eu nerth eu hunain a wna Iesu heddiw hefyd. Er mor chwit chwat ydym yn ein ffydd a'n cerddeddiad hefo Duw, mae Iesu yn dal i ddod atom i'n galw i'w wasanaeth ac i rannu'r newyddion da amdano fel Crist byw sy'n Arglwydd. Mae ei faddeuant yr un mor rymus, a'i gariad angerddol tuag atom yr un mor danbaid! Wrth gofio amdano yn marchogaeth i Jerwsalem, beth am roi croeso go iawn iddo i mewn i'n calonnau a gweddio y caiff fynediad hefyd i galonnau pawb sy'n galw arno?

Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 20:1-10 (BCND tud.126 / BCN: tud.115)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- (Sadwrn - lau)
- **Word Alive** ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA. Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.wordalive.org
- Sul yma
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher
- Mae'n fwriad gan rai o'r Ofalaeth i fynd i'r oedfa yn **Word Alive** fydd yn cychwyn am 6.30. Beth am ddod â llond car hefo chi? Neu, os hoffech gyfarfod eraill o'r Ofalaeth yno, dewch i'r fynedfa erbyn 6.00. (Gweler y cyfeiriad uchod.)
- Gwener
- **Oedfa Gymun i'r Fro ar fore'r Groglith** ym Mheniel am 10.30.
- Sul nesaf
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma
- * SYLWCH AR Y NEWID YN Y DDWY EGLWYS, OS GWELWCH YN DDA.* Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Ni fydd oedfa ym Mheniel ond bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd oedfa o dan ofal yr ieuencid yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00. Ni chynhelir Ysgol Sul yn Saron.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00 ac yn ystod yr oedfa bydd Helen a Rhys Edmunds yn cyflwyno Twm Morus i gael ei fedyddio.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa yno am 10.45.
- Gwener
- Cynhelir Oedfa'r Groglith yng Nghefn Berain am 7.00 gyda'r Parch Tom Evans Williams yn pregethu.
- Sul nesaf
- Bydd Oedfa Deuluol ac Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 gyda'r plant yn arwain y rhan ddechreuol. Yn Llanefydd, bydd Gwasanaeth Teuluol y Pasg dan ofal yr Ysgol Sul am 10.00 ac oedfa arbennig dan ofal yr ieuencid a Nia Williams, Pwllheli am 6.00. Bydd cyfle i brynu nwyddau Masnach Deg ar ôl gwasanaeth y bore a'r hwyr.

Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.